

Cwestiynau Cyffredin // FAQs

MENTRAU CYDWEITHREDOL	CO-OPERATIVE ENTERPRISES
1. Beth yw menter gydweithredol (co-op)? Mae mentrau cydweithredol yn rhoi rheolaeth i bobl dros bethau sy'n bwysig iddyn nhw. Mae unigolion, cymdeithasau a busnesau yn gallu prynu siârs er mwyn dod yn gydberchnogion ar y fenter. Mae gan fuddsoddwyr lais democrataidd yn y ffordd y mae eu cynllun yn rhedeg. Trwy fuddsoddi, mae pobol yn helpu i drawsnewid eu cymunedau.	1 What is a Co-operative Enterprise (co-op)? An initiative that works on behalf of the community. It's not an individual (or syndicate) that profits and makes decisions, but everyone. Every investor has one vote, irrespective of the amount of shares bought.
2. Pam prynu'r Vale fel menter gydweithredol? I wneud yn siŵr bod y Vale yn aros yn galon i'r gymuned. Mae Menter Tafarn y Dyffryn eisiau sicrhau parhad y dafarn fel lle i gwrdd, cymdeithasu a chynnal ein diwylliant, a sicrhau bod y dafarn yn ateb anghenion y gymuned leol. Bydd y dafarn gydweithredol yn sicrhau cyfleoedd gwaith i bobl leol a chefnogi busnesau a chynhyrchwyr lleol.	2. Why buy the Vale as a co-op? To make sure the pub stays at the heart of the community. The initiative seeks to ensure the pub continues to be a place to meet, socialize and promote our culture, and ensure that the place meets the needs of the local community. The co-operative pub will provide employment opportunities for local people and support local businesses and producers.
PRYNU SIÂRS	BUYING SHARES
3. Sut mae prynu siârs? Llenwch y ffurflen fuddsoddi naill ai ar-lein neu ar bapur. Gallwch ddod o hyd iddi ar gefn y daflen farchnata sydd wedi cael ei dosbarthu'n eang neu yn y ddogfen cynnig cyfranddaliadau llawn y gallwch ei hargraffu yma.	3. How do I buy shares? Fill in an investment form either online or on paper which you will find on the back of our widely distributed marketing leaflet or on the full share offer document which you can print here.
4. Faint mae un siâr (cyfranddaliad) yn ei gostio? Mae ein cyfranddaliadau'n cael eu gwerthu fesul £1. Yr isafswm y gallwch ei fuddsoddi yw £200 a'r uchafswm yw £30,000. Gallwn dderbyn unrhyw swm dros £200 hyd at £30,000.	4. How much does a share cost? Our shares are sold for £1. The minimum amount you can invest is £200 and the maximum is £30,000.
5. Sut mae talu am gyfranddaliadau? Gallwch dalu naill ai gyda siec yn daladwy i Menter Tafarn y Dyffryn a'i hanfon at Menter Tafarn y Dyffryn, Maescledan, Nebo, SY23 5LF neu drwy drosglwyddiad banc i Llanelli & District Credit Union Ltd, cod didoli 30-95-14, rhif cyfrif 00036705, gan ddefnyddio 10281 ac yna llythrennau cyntaf eich enw a thri rhif olaf eich rhif ffôn fel cyfeirnod.	5. How do I pay for shares? You can pay either by cheque payable to Menter Tafarn y Dyffryn and sent to Menter Tafarn y Dyffryn, Maescledan, Nebo, SY23 5LF or by bank transfer – Llanelli & District Credit Union Ltd, sort code 30-95-14, account number 00036705, using 10281 and then your initials and the last three digits of you phone number as a reference.
6. A allwn ni wneud un trosglwyddiad banc ar gyfer sawl cyfranddaliwr? Os oes mwy nag un person yn eich cartref yn buddsoddi mewn cyfranddaliadau ar yr un pryd,	6. Can we make one bank transfer for multiple shareholders? If more than one person in your household is investing in shares at the same time, you can

gallwch wneud un trosglwyddiad banc os ydych yn dymuno. Os ydych yn talu am gyfranddaliadau ar ran rhywun sy'n byw mewn cyfeiriad gwahanol, bydd angen i chi wneud trosglwyddiad banc ar wahân fel bod cyfeirnod y taliad yn cyfateb i'w cyfeiriad nhw.	make one single bank transfer if you wish. If you are paying for shares on behalf of someone who lives at a different address, you will need to make a separate bank transfer so that the reference on the payment matches their own address.
PRYNU SIÂRS I ERAILL	BUYING SHARE FOR OTHERS
7. A allwn ni brynu cyfranddaliad yn enwau mwy nag un person? Gallwch, gallwch brynu cyfranddaliadau yn enwau mwy nag un person. Fodd bynnag, os ydych chi'n buddsoddi mwy na £200 mae'n werth ystyried eu rhannu rhwng y bobl dan sylw. Fel yna fe fyddwch i gyd yn dod yn aelodau o'r Gymdeithas ac yn cael pleidlais unigol yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol. Ar yr un pryd, os ydych chi'n bwriadu gwneud cais am ryddhad treth am werth eich buddsoddiad o dan y cynllun Sitr (gweler isod), efallai yr hoffech chi ystyried rhoi'r rhan fwyaf o'ch buddsoddiad yn enw'r person sy'n talu fwyaf o dreth incwm.	7. Can we buy a share in the names of more than one person? Yes, you can buy shares between more than one person. However, if you are investing more than £200 it is worth considering dividing them between the people concerned. That way you each become a member of the Society and you each get an individual vote in our AGM. At the same time, if you are intending to apply for tax relief for the value of your investment under the Sitr scheme (see below), you may wish to place the greater part of your investment in the name of the person who pays most income tax.
8. A allaf roi cyfranddaliadau fel anrheg? Gallwch, gallwch brynu cyfranddaliadau ar ran rhywun arall fel anrheg. Llenwch ffurflen unigol ar eu rhan. Os ydynt yn byw gyda chi (plentyn dros 16 oed, er enghraifft) gallwch wneud un trosglwyddiad banc ar gyfer cyfanswm buddsoddiad yr aelwyd. Os ydynt yn byw mewn cyfeiriad gwahanol, bydd angen i chi wneud trosglwyddiad banc ar wahân fel bod cyfeirnod y taliad yn cyfateb i'w cyfeiriad nhw.	8. Can I give shares as a gift? Yes, you can purchase shares on behalf of someone else as a gift. Please fill in an individual form on their behalf. If they live with you (a child over 16 for example) you can make one single bank transfer for the total household investment. But if they live at a different address, you will need to make a separate bank transfer so that the reference on the payment matches their own address.
9. A allaf brynu cyfranddaliadau i blentyn? Gallwch, llenwch y meysydd perthnasol ar y ffurflen fuddsoddi. Ni fyddant yn aelodau llawn ac ni fyddant yn gallu pleidleisio yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol nes eu bod yn 16 oed, ond byddant yn gymwys i dderbyn llog ar eu buddsoddiad yn union fel pawb arall.	9. Can I buy shares for a child? Yes, please fill in the relevant fields in the investment form. They will not be full members and will not be able to vote in our AGM until they are 16 years of age, but they will be eligible to receive interest on their investment just like everyone else.
PWY ALL BRYNU SIÂRS?	WHO CAN BUY SHARES?
10. A allaf brynu cyfranddaliadau fel cwmni, mudiad neu sefydliad? Gallwch, cwblhewch yr adran berthnasol wrth lenwi'r ffurflen fuddsoddi.	10. Can I buy shares as a business, organisation or establishment? Yes, complete the relevant section when filling out the investment form.

11. A yw'r cynnig cyfranddaliadau ar gyfer pobl leol yn unig? Mae'r cynnig cyfranddaliadau ar gyfer pawb. Rydym yn cydnabod y bydd y cynnig cyfranddaliadau yn apelio at bobl leol a phobl o fannau eraill sy'n credu yng nghenhadaeth Menter Tafarn y Dyffryn ac eisiau cefnogi'r achos. Mae arnom eisiau denu buddsoddiad a chefnogaeth gan bobl ledled Cymru a'r byd!	11. Is the share offer only for locals? The share offer is for everyone. We recognise that the share offer will appeal to locals and people from elsewhere who believe in the mission of Menter Tafarn y Dyffryn and want to support the cause. We want to attract investment and support from people all over Wales and the world!
12. A allaf brynu cyfranddaliadau os wyf yn byw y tu allan i Gymru? Gallwch, rydym yn croesawu cefnogaeth gan gyfranddallwyr o bob cwr o'r byd! Ond gwnewch yn siŵr eich bod yn trefnu'r trosglwyddiad banc mewn GBP / Sterling er mwyn i ni dderbyn gwerth llawn y cyfranddaliadau a brynwyd.	12. Can I buy shares if I live outside Wales? Yes, we welcome support from shareholders from all corners of the world! But please make sure that you arrange the bank transfer payment in GBP/Sterling so that we receive the full value of the shares purchased.
13. A allaf brynu cyfranddaliadau fwy nag unwaith? Byddwch yn gallu prynu cyfranddaliadau fwy nag unwaith yn ystod y cyfnod 5 wythnos pan mae'r cynnig cyfranddaliadau yn agored. Mae'r cynnig cyfranddaliadau cyfredol hwn yn cau ar 12 Rhagfyr 2021.	13. Can I buy shares more than once? You will be able to buy shares more than once within the 5-week share offer window. This current share offer closes at 12 December 2021.
GWAITH PAPUR	THE PAPERWORK
14. Sut ydw i'n gwybod eich bod wedi derbyn fy ffurflen fuddsoddi? Pan fyddwch yn llenwi'r ffurflen fuddsoddi ar-lein byddwch yn derbyn ebost cadarnhau gyda chrynodeb o'ch manylion. Os nad ydych wedi ei dderbyn, edrychwch yn eich ffolder sbam. Os oes unrhyw amheuaeth, cysylltwch â ni ar cyfran@tafarn.cymru. Anfonir tystysgrifau cyfranddaliadau trwy'r post at bob buddsoddwr.	14. How do I know if you've received my investment form? When you fill in the online investment form you will receive a confirmation email with a summary of your details. If you haven't received it, check your spam folder. If ever in doubt, simply contact us on shares@tafarn.cymru. Share certificates will be sent by post to all investors.
15. Pwy fydd yn gwybod faint o arian rwy'n ei fuddsoddi? Dim ond Trysorydd y Grŵp Llywio fydd yn gweld faint o gyfranddaliadau y bydd unrhyw fuddsoddwr yn ei gyfrannu. Ni fydd manylion cyfranddaliadau unigol yn wybodaeth gyhoeddus.	15. Pwy fydd yn gwybod faint o arian rwy'n ei fuddsoddi? Only the Steering Group Treasurer will see how many shares anyone has invested. Information regarding individual shares will not be public knowledge.
16. A allaf gael copïau papur o'r cynnig cyfranddaliadau llawn a'r cynllun busnes? Gallwch. I ofyn am gopïau caled o'r dogfennau, cysylltwch â'n Hysgrifennydd ar cysylltu@tafarn.cymru.	16. Can I have paper copies of the full share offer and business plan? Yes. To request hard copies of the documents, please contact our Secretary on cysylltu@tafarn.cymru.

MANYLION ERAILL PRYNU SIÂRS	OTHER INFO
17. Pa mor hawdd fydd gwneud cais am Rhyddhad Treth Buddsoddiad Cymdeithasol (SITR) a beth mae'n ei olygu i mi fel buddsoddwr? Bydd buddsoddiadau a wneir gan drethdalwyr yn gymwys i gael rhyddhad treth dan gynllun SITR, fel yr amlinellir yn y ddogfen Cynnig Cyfranddaliadau. Maes o law fe fyddwn yn anfon tystysgrif rhyddhad treth atoch. Yna bydd angen i chi naill ai gwblhau ffurflen dreth am y flwyddyn a'i hawlio fel buddsoddiad y gellir ei osod yn erbyn treth, neu gallwch ei anfon at Gyllid a Thollau EM a gofyn iddyn nhw newid eich cod treth am y flwyddyn. Os ydych chi'n drethdalwr safonol neu gyfradd uwch, bydd hyn yn golygu mai £700 y bydd buddsoddiad o £1000 yn costio i chi yn y pen draw. Mae mwy o fanylion ar dudalennau 11 a 12 o'r Cynnig Cyfranddaliadau.	17. How easy will it be to apply for the SITR and what does it mean for me as an investor? Investments made by taxpayers will be potentially eligible for tax relief under the SITR scheme, as outlined in the Share Offer document. You will in due course be sent a tax relief certificate. You will then need either to make a tax return for the year and claim it as a tax-deductible investment, or you can send it to HMRC and ask them to change your tax code for the year. If you are a standard or higher rate taxpayer, this will mean an investment of £1000 will end up costing you £700. More details can be found on pages 11 and 12 of the Share Offer.
18. A fyddaf yn cael fy arian yn ôl ar ryw adeg? Ac a fyddaf yn derbyn adroddiad blynyddol ar fy nghyfranddaliadau? Mae cyfranddaliadau cymunedol yn gyfalaf cyfranddaliadau y gellir eu tynnu'n ôl a ddyroddir yn unigryw gan gymdeithasau cydweithredol a chymdeithasau budd cymunedol i godi arian ac i brynu asedau er budd y gymuned. Hefyd, yn y tymor hir, ein nod yw talu llog blynyddol o uchafswm o 2% unwaith y bydd pedair mlynedd lawn o fasnachu wedi'u cwblhau ac os cynhyrchir digon o elw. Ar ôl 5 mlynedd, gallwch ein hysbysu eich bod yn dymuno tynnu'ch cyfranddaliadau yn ôl. Bydd y Grŵp Llywio yn cynnig canllawiau i'r Cyfarfod Blynyddol i ddelio â cheisiadau tynnu'n ôl. Mae'n debygol y bydd terfyn blynyddol ar dynnu arian yn ôl ar yr amod bod y Gymdeithas yn cadw digon o gronfeydd wrth gefn neu fod cyfalaf newydd yn dod i mewn. Darllenwch ein dogfen Cynnig Cyfranddaliadau llawn i gael rhagor o wybodaeth.	18. Will I get my money back at some point? And will I receive an annual return on my shares? Community shares are withdraw-able share capital which is uniquely issued by co-operative and community benefit societies to raise money and to buy assets for the benefit of the community. Also, in the long term, we aim to pay annual interest on share capital of a maximum of 2% after completion of four full years of trading provided sufficient profits are generated. After 5 years, you can give notice if you wish to withdraw your shares. The Management Committee will propose guidelines to the Annual Meeting to deal with withdrawal applications. It is likely that there will be a limit on annual withdrawals and that they will be subject to the Society's retaining sufficient reserves or to there being new capital coming in. Please read our full share offer document for further information.
19. Maes o law, a allaf adael cyfranddaliadau i'm teulu yn fy ewyllys? Gallwch. Bydd angen i'r Gymdeithas gofrestru'r newid enw.	19. Can I eventually leave shares in my will to my family? Yes you can. The change of name will need to be registered by the Society.
20. A allaf werthu neu drosglwyddo cyfranddaliadau i rywun arall? Beth fyddai eu gwerth? Na ellwch. Dim ond y Gymdeithas all brynu'ch cyfranddaliadau yn ôl, yn unol â'r canllawiau	20. Can I sell or transfer shares to somebody else? What might they be worth? No. Your shares can only be re-purchased by the Society in line with its withdrawal guidelines. They will only be redeemed at the price which was paid for them.

tynnu'n ôl. Dim ond am y pris a dalwyd amdanynt y cânt eu prynu'n ôl.	
21. Pa sicrwydd sydd i bobl sy'n prynu cyfranddaliadau? Nid yw'r Gymdeithas yn cynnig sicrwydd i'r rhai sy'n prynu cyfranddaliadau. Fodd bynnag, pe bai'r fenter yn cau ei drysau, byddai'n bosibl gwerthu'r asedau a dychwelyd cyfalaf i aelodau hyd at werth y buddsoddiadau gwreiddiol, ar ôl i'r holl ddyledion eraill gael eu talu.	21. What security is there for people who buy shares? The Society does not offer security for those buying shares. However, If the venture were to be closed down, it would be possible to sell the assets and return capital to members up to the value of the original investments, after all other debts had been paid.
PRYNU A RHEDEG TAFARN Y VALE	BUYING AND RUNNING THE PUB
22. Beth yw'r targed codi arian? Rydym yn anelu at godi £330,000 trwy'r Cynnig i Brynu Cyfranddaliadau (siârs), sy'n agored i'r gymuned ac i'r cyhoedd yn gyffredinol. Fe fyddwn yn defnyddio'r arian a godir, ochr yn ochr â grantiau a benthyciadau rydym yn gobeithio eu cael o ffynonellau eraill, i brynu ac adnewyddu'r dafarn.	22. What is the fundraising target? Our aim is to raise £330,000 through the share offer, which is open to the community and the general public. We will use the money raised, alongside grants we hope to get from other sources, to buy the pub and invest in the building.
23. Beth fydd yn digwydd os na werthir digon o gyfranddaliadau? Mae'r Cynllun Busnes yn rhagdybio y bydd ein hymdrechion i godi cyllid digonol, trwy gyfuniad o werthu cyfranddaliadau, sicrhau grantiau, derbyn benthyciadau, a gweithgareddau codi arian eraill, yn llwyddiannus. Os nad ydynt, caiff y got ei thorri yn ôl y brethyn, a bydd rhannau unigol o'r datblygiad sydd wedi ei ddisgrifio yn cael eu rhoi o'r neilltu neu'n cael eu gohirio hyd nes y bydd cyllid ar gael. Ar bwynt priodol, bydd cynllun terfynol, yn seiliedig ar y cyllid sydd wedi'i sicrhau, yn cael ei roi i'r aelodau ei gymeradwyo.	23. What happens if not enough shares are sold? The Business Plan assumes our efforts to raise sufficient funding, through a combination of selling shares, securing grants, issuing loans, and other fund-raising activities, are successful. If they are not, the plan will be scaled back, and individual parts of the development described will be shelved or postponed until funding becomes available. At an appropriate point, a finalised plan, based on funding which has been secured, will be put to the members for approval.
24. Pryd fydd y Vale yn ailagor? Gyda gwynt teg, rydym yn gobeithio bydd modd i ni sicrhau'r pryniant yn fuan yn y flwyddyn newydd, gan anelu at ailagor yn y gwanwyn.	24. When will the Vale re-open? With luck, we hope to ensure the purchase early in the new year, and aim to reopen in the spring.
25. Pwy fydd yn rhedeg y dafarn? Bydd y Grŵp Llywio yn gwahodd ceisiadau am reolwr neu reolwraig er mwyn rhedeg y busnes o ddydd i ddydd. Bydd yr unigolyn neu unigolion hynny yn atebol i'r Grŵp Llywio.	25. Pwy fydd yn rhedeg y dafarn? The Steering Group will invite applications for a manager to run the business from day to day. The individual(s) will be accountable to the Steering Group.
26. Sut fyddaf i yn clywed am gynnydd y fenter? I gael y newyddion diweddaraf, dilynwch ni ar Facebook neu Twitter. Gallwch hefyd ymuno â'n rhestr ebost	26. How can I find out how things are progressing? For the latest updates, follow us on Facebook or Twitter. You can also join our email list

CWESTIYNAU ERAILL	OTHER QUESTIONS
27. Beth yw'r Marc Safon Cyfranddaliadau Cymunedol? Mae'r Uned Cyfrannau Cymuned yn bodoli i hyrwyddo sefydliadau a chymdeithasau cydweithredol o bob math. Maent wedi llunio'r Marc Safon er mwyn meincnodi cynigion cyfranddaliadau cymunedol megis yr un yma yn erbyn y safonau uchaf a geir yn y Deyrnas Unedig. Roedd yn rhaid cyflwyno ein dogfennau i arbenigwyr eu hasesu a chraffu arnynt cyn derbyn y Marc Safon – proses a oedd ynddi ei hun yn addysgiadol ac a arweiniodd at gael llawer o gyngor defnyddiol. Mae'r Marc Safon yn arwydd da o ba mor drylwyr, a chymaint o ofal a gymerwyd, wrth lunio ac egluro'r Cynnig Cyfranddaliadau.	27. What is the Community Shares Standard Mark? The Community Shares Unit exists to promote cooperative organisations and societies of all kinds. They have devised the Standard Mark so as to benchmark community share offers such as ours against the highest UK standards. Our documents had to be submitted for assessment and scrutiny by experts before being awarded the Standard Mark – a process which was in itself instructive and generated much useful advice. The Standard Mark is a good indication of the rigour and care with which the Share Offer has been devised and explained.
28. A oes pris terfynol wedi'i gytuno ar gyfer prynu'r eiddo? Holwyd i syrfêwr lleol am ei farn o ran gwerth yr eiddo ac, o ystyried y ffaith bod angen rhywfaint o waith adnewyddu, fe nododd fod ei werth, yn ei farn ef, rhwng £290,000 a £320,000. Aeth y Gymdeithas ati i wneud cynnig cyntaf o £280,000 i brynu'r dafarn, ar yr amod ein bod yn bodloni'r nod ariannol trwy werthu siârs. Gwrthodwyd y cynnig gwreiddiol hwnnw, ac yn dilyn rhywfaint o drafod derbyniwyd ein cynnig o £297,500 mewn egwyddor. Mae teulu'r Evansiaid wedi bod yn gefnogol o'r cysyniad o berchnogaeth gymunedol ers i'r Gymdeithas gyflwyno'r syniad yn gynharach eleni, a hoffai'r Gymdeithas ddiolch iddynt am eu cefnogaeth a'u hamynedd trwy gydol y broses.	28. A oes pris terfynol wedi'i gytuno ar gyfer prynu'r eiddo? A local surveyor was asked for his opinion on the value of the property and, given the fact that some renovation work is required on the property, he stated that, in his opinion, the property's value is between £290,000 and £320,000. The Society made an initial offer of £280,000 to purchase the pub, on condition of meeting the financial target from selling shares. That initial offer was rejected and following some negotiation a subsequent offer of £297,500 was accepted in principle. The Evans family have been supportive of the concept of community ownership since the Society first approached them earlier this year and the Society would like to thank them for their support and patience throughout the process.
29. A fydd newidiadau'n cael eu gwneud i'r adeilad? Bydd cynlluniau yn cael ei paratoi maes o law, gyda gwahanol opsiynau i'w trafod fel rhanddeiliaid ac ymgynghori gyda'r gymuned yn eu cylch, ond yn y bôn mae'n fwriad cadw gofodau'r bar a'i naws arbennig. Mae'n fwriad ymgymryd â gwelliannau o fydd yn caniatáu i'r adeilad fod yn fwy effeithlon a chynaliadwy, ac mae hefyd yn fwriad cyflwyno newidiadau a fydd yn gwella hygyrchedd yr adeilad yn ogystal â gwella ansawdd rhai o'r cyfleusterau megis y toiledau. Mae'n fwriad gwella'r adnoddau yn yr ardd gefn a'r maes parcio hefyd.	29. Will any alterations be made to the building? Plans will be prepared in due course, with various options to be discussed as stakeholders and consulted with the community, but the intention is to preserve the bar spaces and the pub's special atmosphere. It is intended to undertake improvements that will allow the building to be more efficient and sustainable, and it is also the intention to introduce changes that will improve the accessibility of the building as well as improve the quality of some of the facilities such as the toilets. It is intended

	to improve the facilities in the back garden and car park.
Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach na chawsant eu hateb yma, mae croeso i chi gysylltu â'n Ysgrifennydd ar 01570 471456 neu cysylltu@tafarn.cymru	If you have any further questions not answered here, please feel free to contact our Secretary on 01570 471456 or cysylltu@tafarn.cymru